## YMDRIN AG ADDYSGU UNED 1

» Mae gan Uned 1 nifer o nodweddion pwysig iawn:

- mae'n ymdrin â chyfnod hir o Hanes gan ei bod yn cyflawni'r meini prawf cenedlaethol bod rhaid astudio Hanes yn eang ar safon UG ac Uwch
- mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r ddealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol allweddol fel maent yn cael eu pennu yn Amcan Asesu 1
- mae ei ffocws ar sgiliau yn hytrach nag ar gynnwys a ffeithiau

» Pwysleisir bod rhaid addysgu'r holl gynnwys ym mhob opsiwn, er y pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r cynnwys gael ei addysgu'n drylwyr.

### CYNGOR YNGHYLCH SUT I DRIN CYNNWYS ASTUDIAETH O GYFNOD 5 UNED 1

**Er mwyn rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 5,** argymhellir bod yr athrawon yn anelu at ddefnyddio trosolwg cyffredinol o unigolion, digwyddiadau, termau a dyddiadau pwysig sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o bob topig neu fater. Mae'n hanfodol pwysleisio y dylid ystyried yr Astudiaeth o Gyfnod fel cyfanwaith a ble bo'n briodol, dylid gwneud cysylltau a chysylltiadau rhwng ac ar draws nodweddion a phriodweddau.

Un ffordd bosibl o reoli cynnwys yr opsiwn hwn yw dechrau pob prif dopig gyda thrafodaeth. Mae dechrau a diweddu'r astudiaeth o bob topig neu fater gyda thrafodaethau neu ddadleuon yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar nodweddion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r topig neu'r mater. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio'u sylw ar beth sydd bwysicaf yn y cyfnod a astudir.

Dylai'r athrawon wneud defnydd o'r amrywiaeth o drafodaethau awgrymedig fel dull o drefnu eu hymagwedd at gynnwys y fanyleb, ond ni ddylent gymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd cwestiynau arholiad yn cael eu gosod yn uniongyrchol neu eu seilio'n gyfan gwbl ar unrhyw rai o'r trafodaethau a awgrymir isod.

© Hawlfraint y Goron 2018

**Gellir rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 5 drwy gynnal cyfres o drafodaethau neu ddadleuon.** Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Nodwch y prif ddylanwadau ar Ewrop ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg.
- Trafodwch y rhesymau dros gychwyn a lledaeniad y Diwygiad yn yr Almaen.
- Trafodwch ym mha ffyrdd yr ymatebodd yr Eglwys Gatholig i bwysau crefyddol.
- Dadleuwch yr effaith y cafodd fforio a darganfod ar fywyd yn Ewrop yn y cyfnod hwn.
- Gwerthuswch faint y bygythiad i Ewrop gan yr Ymerodraeth Otomanaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg.
- Gwerthuswch effeithiolrwydd polisïau cartref Ffransis I o Ffrainc.
- Dadansoddwch y prif heriau oedd yn wynebu Siarl V hyd at 1555.
- Gwerthuswch lwyddiant Philip II mewn materion cartref a thramor.
- Trafodwch pa mor wahanol oedd Ewrop yn wleidyddol ac yn grefyddol erbyn 1598.

## GWEITHGAREDD 1: DEFNYDDIO DARLUNIAU I DRAFOD CYSYNIADAU

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn cyflwyno a dadlau rhai o'r trafodaethau awgrymedig yn yr opsiwn hwn mae'n bosibl defnyddio darluniau i gyflwyno neu ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r materion. Gellir cyflwyno, datblygu, dadlau neu adolygu'r rhan fwyaf o'r cynnwys penodedig sy'n cael ei drafod yn yr opsiwn hwn gan ddefnyddio darluniau. Gall y rhain fod yn gartwnau, paentiadau, printiau neu fapiau. Islaw rhoddir enghraifft sy'n canolbwyntio ar drafod y cysyniad o **ganlyniad**

Mae'r torlun pren isod yn ddelwedd gyfoes sy'n dangos gwerthu maddeuebau. Defnyddiwch y torlun pren i ddechrau trafodaeth ar y rhesymau dros ymosodiad Martin Luther ar yr Eglwys Gatholig.



Gwerthu maddeuebau
Art Collection 3 / Alamy Stock Photo

## GWEITHGAREDD 2: Rhowch radd Coch/Melyn/Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau allweddol

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ar gyfer pob un o'r trafodaethau awgrymedig a roddir uchod, dylai'r dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â phob un. Er enghraifft, gellir ystyried y rhain am eu pwysigrwydd neu arwyddocâd ym mhob mater. I ddechrau'r broses hon, gallai'r dysgwyr ddefnyddio tri amlygwr lliw i roi seren Goch, Felen neu Werdd wrth ochr pob nodwedd.

Coch: Nodweddion sydd ag ond ychydig berthnasedd i'r ymholiad
Melyn: Nodweddion sydd â rhywfaint o berthnasedd i'r ymholiad
Gwyrdd: Nodweddion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymholiad.

Byddai **gweithgareddau cysylltiedig** yn cynnwys defnyddio amlygwyr lliw i amlygu'r nodweddion a'r priodweddau hyn mewn perthynas ag:

**Amser** – ydyn nhw'n ffactorau tymor hir neu dymor byr?

**Persbectif** – ydyn nhw'n ffactorau unigol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, neu'n gyfuniad o'r rhain?

Dyma enghraifft o drafodaeth awgrymedig:

**Trafodwch y rhesymau dros ddechrau'r Diwygiad yn yr Almaen**

Rhowch radd Coch / Melyn Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau canlynol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth hon:

- Llygredd yr Eglwys Gatholig
- Cwynion gwleidyddol ac economaidd yn deillio o reolaeth gan bŵer estron
- Cwynion economaidd a chymdeithasol y gwerinwyr
- Dylanwad y Dadeni
- Dylanwad y wasg argraffu a phamffledi beirniadol Luther
- Effaith Tetzel a'r Ddadl dros Faddeuebau
- Ymateb araf ac aneffeithiol y Babaeth

© Hawlfraint y Goron 2018

- Methiant Siarl V i reoli Luther ar ôl iddo ymddangos yn Diet Worms
- Cefnogaeth y Tywysogion
- Twf trefi a dinasoedd gyda phoblogaeth lythrennog.
- Twf y dosbarth canol
- Twf trefi a dinasoedd

Nawr gwnewch y gweithgaredd eto ar gyfer unrhyw dri o'r trafodaethau awgrymedig eraill ar dudalen 2.

## GWEITHGAREDD 3: SYMUD O HONIAD I DDADL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

**Gellir dilyn Gweithgaredd 2 gan un sy'n gofyn i'r dysgwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau graddio Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG). Bydd hyn yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng honiad a dadl.**

**Honiad:** gosodiad neu farn nad ydyw'n cael ei hategu gan reswm neu fanylion ychwanegol.

**Dadl:** honiad a gyfiawnheir gan reswm neu fwy o fanylion ac sy'n egluro neu'n cyfiawnhau rhywbeth ac yn gwrthddweud dadleuon eraill.

**Er mwyn helpu i symud o honiad i ddadl,** darllenwch y cwestiwn enghreifftiol isod ac yna ategwch bob un o'r honiadau er mwyn ei droi'n ddadl.

**I ba raddau rydych chi'n cytuno mai dylanwad diwylliant y Dadeni oedd yn bennaf gyfrifol am ddatblygiad Ffrainc yn ystod teyrnasiad Ffransis I, 1515-1547?**

H1: Chwaraeodd diwylliant y Dadeni ran bwysig yn natblygiad Ffrainc yn ystod teyrnasiad Ffransis I, 1515-1547.

**Ategwch yr honiad hwn**

H2: Mater arall i'w ystyried yw bod y gystadleuaeth rhwng yr Hapsbwrgiaid a'r Valois wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad Ffrainc yn ystod y cyfnod hwn.

**Ategwch yr honiad hwn**

H3: Gellir dadlau mai newidiadau ariannol ac economaidd oedd yn wir gyfrifol am ddatblygiad Ffrainc yn ystod teyrnasiad Ffransis I.

**Ategwch yr honiad hwn**

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU DADL RESYMEGOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Wrth ystyried y cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu'r opsiwn hwn, disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion, gwerthuso'u pwysigrwydd ac yn gallu rhoi barn wedi'i chyfiawnhau sy'n cael ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd. Yn aml, gellir gwneud hyn ar y cyd â'r ymagwedd trafodaethau awgrymedig a welir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gellir defnyddio pob enghraifft o'r trafodaethau awgrymedig a nodir i fynd i'r afael â chysyniadau hanesyddol penodol a hefyd i helpu dysgwyr i ddatblygu dadl resymegol.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall athrawon a dysgwyr fynd ati i ddatblygu dadl resymegol wrth ateb cwestiwn gosod:

**I ba raddau gellir dweud mai twf fforio a darganfod oedd y dylanwad mwyaf ar ddatblygiad Ewrop yn y cyfnod rhwng 1500 ac 1555?**

**Nodweddion allweddol:**

Darganfod a fforio gan bwerau Ewrop hyd at yr 1550au

Dechreuad a lledaeniad y Diwygiad

Bygythiad yr Otomaniaid ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg

Dylanwad diwylliant y Dadeni

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

Maint dylanwad yr agweddau economaidd a ddeilliodd o ddarganfod a fforio

Maint dylanwad yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol a ddeilliodd o ddarganfod a fforio.

Maint dylanwad y bri a'r pŵer a ddeilliodd o ddarganfod a fforio

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

Y fforio a'r darganfyddiadau a wnaed gan Bortiwgal a Sbaen erbyn 1555

Dylanwad y Dadeni Uchel a bygythiad yr Otomaniaid hyd at 1555

Datblygiadau mewn crefydd, 1500-1555

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad yn cynnwys gwerthuso arwyddocâd:**

Datblygiad y Diwygiad hyd at 1555

Arwyddocâd bygythiad yr Otomaniaid

Dylanwad y gystadleuaeth rhwng yr Hapsbwrgiaid a'r Valois

© Hawlfraint y Goron 2018 

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, **llenwch y diagram sy'n dilyn** ar gyfer dau gwestiwn arall sydd wedi ymddangos ar gyn-bapurau arholiad ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Nodweddion allweddol:**

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

**Cwestiwn**

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad:**

## GWEITHGAREDD 5: CYSYLLTU CYNNWYS Â CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r astudiaeth o Hanes UG a Safon Uwch. Wrth ymateb i'w haseiniadau, mae dysgwyr yn aml yn methu â chanolbwyntio ar y cysyniadau allweddol yn eu hymatebion. Yn lle hynny maent yn rhoi gwybodaeth yn null naratif neu restr.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn deall bod cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 5 wedi'i gysylltu â'r cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu AA1. Dangosir y cysyniadau allweddol hyn isod gydag enghreifftiau o sut gellir defnyddio cynnwys yr opsiwn hwn i enghreifftio'r cysyniadau penodol hyn.

Edrychwch ar y fanyleb rydych yn ei hastudio ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 5. **Nodwch ddwy nodwedd arall o gynnwys y fanyleb a all enghreifftio pob cysyniad allweddol.**

Cofiwch y gellir defnyddio'r cynnwys penodedig i enghreifftio mwy nag un cysyniad os yw'n briodol.

| Cysyniadau allweddol | Enghreifftiau o gynnwys i enghreifftio'r cysyniadau hyn | |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | 1 | Y **prif resymau** dros ledaeniad Lutheriaeth ar ôl 1530 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Newid a pharhad | 1 | Y **newid** yn natur bygythiad yr Otomaniaid i Ewrop |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | 1 | **Cymhariaeth** o'r prif heriau oedd yn wynebu Sbaen yn ystod y cyfnod 1500-1598 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | 1 | **Pwysigrwydd** polisïau crefyddol Ffransis I yn natblygiad Ffrainc, 1516-1547 |
| | 2 | |
| | 3 | |

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 6: ADNABOD CYSYNIADAU HANESYDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Bydd pob un o'r cwestiynau a osodir ar gyfer Uned 1 yn disgwyl i chi gyflwyno dadl dros gysyniad hanesyddol. I wneud hyn yn effeithiol dylech ddod yn grefftus wrth adnabod y cysyniad a'r gwerthusiad y mae'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

A allwch chi nodi'r cysyniad allweddol o'r cwestiynau enghreifftiol isod? Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau a'i ddangos mewn **print trwm.**

- I ba raddau roedd Martin Luther **yn bennaf gyfrifol** am y newid crefyddol yn y cyfnod 1517-1564?
- 'Deliodd Philip II yn effeithiol â'r problemau a wynebai yn Sbaen rhwng 1558 ac 1592.' Trafodwch.
- I ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r gystadleuaeth gyda'r Hapsbwrgiaid gafodd yr effaith fwyaf arwyddocaol ar Ffrainc yn y cyfnod 1515-1547?
- Ai'r rhaniadau yn Ewrop oedd yn bennaf gyfrifol am ehangiad yr Otomaniaid i Ewrop yn y cyfnod 1520-1571?
- "Her fwyaf Sbaen yn y cyfnod 1516-1556 oedd rôl ddeublyg Siarl V fel Brenin Sbaen ac Ymerawdwr yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd." Trafodwch
- I ba raddau cafodd tywysogion yr Almaen yr effaith fwyaf arwyddocaol ar newid crefyddol yn Ewrop yn y cyfnod 1500-1564?

Gallwch hefyd ddefnyddio cyfleuster Banc Cwestiynau CBAC i ymarfer adnabod y cysyniadau allweddol mewn amrywiaeth o hen gwestiynau eraill. Mae hwn ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/question-bank/index.html?language_id=2

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 7: GOSOD CWESTIYNAU CYSYNIADOL PRIODOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn deall natur ehangach Uned 1 mae'n bwysig bod athrawon a dysgwyr yn ymgyfarwyddo â sut mae cwestiynau cysyniadol yn cael eu ffurfio, sut gellir eu brawddegu a sut gellir eu haddasu yn ôl pa faes o'r astudiaeth o gyfnod a addysgir. Cynigir y cyngor canlynol:

- dylai'r cwestiwn fod yn **fater prif ffrwd** sydd wedi'i enwi neu ei gysylltu'n agos â'r manylion yn y fanyleb. Ceisiwch beidio â gosod cwestiynau ar rannau mân neu ddibwys o'r fanyleb.
- Rhaid bod yna **ddigon o sylwedd** i'r prif fater a osodir fel y bydd yn hybu dadl fywiog ar y topig a astudir. Peidiwch â gosod mater y mae'n hawdd i'r dysgwyr ei ddiystyru
- dylai'r cwestiwn a osodir ymdrin â **chyfnod sylweddol o amser**
- dylai fod modd i'r dysgwyr **gynnal dadl** drwy gydol yr ateb
- dylai'r cwestiwn ganiatáu i'r dysgwyr ddangos bod ganddynt **ddealltwriaeth o'r cysyniad hanesyddol perthnasol** yn y cwestiwn
- dylai'r cwestiwn gynnwys **gair neu eiriau allweddol** a fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ffurfio barn gytbwys e.e. *'Her **fwyaf** Sbaen yn y cyfnod 1516-1556 oedd rôl ddeublyg Siarl V fel Brenin Sbaen ac Ymerawdwr yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd.' Trafodwch.*

Ffordd awgrymedig o ymdrin â'r agwedd hon ar ddysgu yw defnyddio'r rhestr wirio ganlynol pan osodir tasgau a chwestiynau ar gyfer y dysgwyr.

| Ydy'r cwestiwn a osodwyd yn... | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| amlygu mater prif ffrwd? | | |
| hyrwyddo ymgysylltu â dadl? | | |
| ymdrin â chyfnod sylweddol o amser? | | |
| canolbwyntio ar gysyniad hanesyddol allweddol? | | |
| cynnwys gair gwerthusol? | | |

Ceisiwch osod eich cwestiynau cysyniadol eich hun ar gynnwys Astudiaeth o Gyfnod 5. A allwch chi osod cwestiynau cysyniadol priodol ar y meysydd cynnwys canlynol?

- Y prif ddylanwadau ar Ewrop ar ddechrau'r uned ganrif ar bymtheg
- Effeithiolrwydd polisïau Ffransis I yng nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg
- Maint bygythiad yr Otomaniaid i Ewrop yn yr unfed ganrif ar bymtheg
- Yr heriau a wynebai Sbaen, 1556-1598
- Pwysigrwydd Heddwch Augsburg yn 1555 i newid crefyddol

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, ceisiwch roi gradd CMG i'r nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â'ch cwestiynau.

## GWEITHGAREDD 8: GWERTHUSO GWAITH YN NULL TRAETHAWD

Dyma ddwy enghraifft o atebion i gwestiynau Uned 1 a osodwyd yn arholiadau 2017.

- Allwch chi gymhwyso'r rhestr wirio ar dudalen 11 y ddogfen Cyflwyno cysyniadau hanesyddol yn Uned 1 at y traethodau hyn?
- Ystyriwch gryfderau a chyfyngiadau pob traethawd.
- Ystyriwch sut gallech wella pob un a pha gyngor allech chi ei roi i'r dysgwr a'i hysgrifennodd.

© Hawlfraint y Goron 2018

## Enghraifft batrymol 1

**I ba raddau cafodd tywysogion yr Almaen yr effaith fwyaf arwyddocaol ar newid crefyddol yn Ewrop yn y cyfnod 1500-1564?**

Mae'r newid crefyddol yn Ewrop rhwng 1500 ac 1564 yn amlwg iawn yn yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd, Sbaen a Ffrainc, gyda'r Lutheriaid a'r dyneiddwyr yn lledaenu eu safbwyntiau. Gellir dadlau bod tywysogion yr Almaen wedi chwarae rhan arwyddocaol yn y newid crefyddol hwn. Fodd bynnag, mae'n amheus p'un ai cawsant effaith mwy arwyddocaol nag agweddau fel y wasg argraffu a Luther a bydd hyn yn cael ei drafod isod.

Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg chwaraeodd tywysogion yr Almaen ran bwysig yn cefnogi a lledaenu safbwyntiau gwrthdystwyr crefyddol fel Luther. Dechreuodd y tywysogion gefnogi gwrthdystwyr fel Luther am fod hon yn ffordd o ennill neilltuaeth daleithiol a dod yn fwy grymus yn eu tiriogaethau. Roeddent hefyd yn awyddus i gefnogi Luther oherwydd eu bod yn casáu rhagoriaeth y Pab. Chwaraeodd y tywysogion ran arwyddocaol yn ôl rhai haneswyr oherwydd eu bod wedi gallu diogelu'r pregethwyr Protestannaidd, er enghraifft, er bod Siarl V a'r Pab wedi rhoi Luther ar herw yng Nghymanfa Worms yn 1521, roedd Luther yn gallu ehangu a datblygu ei syniadau o hyd oherwydd iddo gael ei gipio a'i ddiogelu gan Ffredric y Doeth. Mae hyn yn awgrymu, pe na fyddai'r tywysogion wedi cefnogi a diogelu Luther ni allai fod wedi ehangu ei safbwyntiau ymhellach ac achosi newid crefyddol yn ddiogel. Hefyd oherwydd y gefnogaeth roddodd tywysogion yr Almaen i Luther, daeth rhai i gredu bod hyn wedi atal Siarl V rhag ymyrryd gormod oherwydd ei fod eisiau cefnogaeth y tywysogion ac felly cafodd ei rwystro rhag atal newid crefyddol oherwydd roedd angen eu cefnogaeth arno i wneud felly. Felly, yn ôl rhai, cafodd y tywysogion yr effaith fwyaf arwyddocaol ar newid crefyddol yn ystod y cyfnod hwn.

Byddai rhai haneswyr yn dadlau mai diffyg gweithredu a phenderfyniad ar ran Siarl achosodd y newid crefyddol yn yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd. Roedd Siarl yn absennol yn aml, fel rhwng 1533 ac 1542, ac yn aml byddai'n goddef Luther am ei fod yn absennol ei feddwl ac arweiniodd hyn at ddatblygiad rhagor o newid crefyddol er enghraifft oherwydd ei fod yn ymddiddori yn y Twrciaid yn 1526 yn ystod Cymanfa Speyer roedd yn methu â chanolbwyntio'n llawn ar y cynigion i roi goddefgarwch a chaniataodd i'r tywysogion ddehongli'r Gyhoeddeb fel y mynnent. Yna, drwy adael y peth am dair blynedd heb unrhyw gyfaddawd tan ail Gymanfa Speyer yn 1529 rhoddodd amser i Lutheriaeth ehangu. Mae hyn yn dangos sut oedd yn trin crefydd drwy gydol ei deyrnasiad ac ymhen amser arweiniodd ei ddiffyg cyfaddawdu o'r cychwyn cyntaf at Heddwch Augsburg yn 1555 gan ddangos maint y newid crefyddol gan nad oedd Lutheriaeth a Phabyddiaeth yn cael cydfodoli. Ond gellid credu bod tywysogion yr Almaen hefyd yn gyfrifol am ddiffyg gweithredu a phenderfyniad Siarl a dangosodd sut oedd yn cael ei lesteirio heb eu cefnogaeth. Dangosodd hyn hefyd na allai orfodi Pabyddiaeth heb eu help.

Byddai rhai yn anghytuno ac yn credu mai syniadau Luther oedd y prif reswm dros newid crefyddol yn yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd oherwydd mai hwn oedd y catalydd a

© Hawlfraint y Goron 2018

sbardunodd y Diwygiad a'r newidiadau crefyddol. Byddai rhai haneswyr yn dadlau, pe na fyddai wedi cyhoeddi'r 95 Thesis yn 1517 a'i bamffledi yn 1520, ni fyddai newid crefyddol wedi digwydd. Byddai rhai'n dadlau mai credoau Luther a ganiataodd i werinwyr, dinasoedd a thywysogion ei gefnogi. Roedd syniadau Luther yn cynnwys ei gasineb tuag at faddeuebau, offeiriadaeth yr holl saint a'r ymosodiadau ar oruchafiaeth glerigol a phabaidd. Roedd pob un o'r rhain yn ddeniadol i un agwedd o gymdeithas. Felly heb y safbwyntiau hyn, ni fyddai'r gefnogaeth i newid crefyddol wedi bod mor gref ac ni fyddai wedi achosi newid. Er enghraifft roedd y gwerinwyr yn cefnogi Luther oherwydd eu cwynion cymdeithasol fel cynaeafau'n methu. Roeddent yn gweld Luther yn ffordd allan o orfod talu trethi i'r eglwys, talu am faddeuebau a thalu tirfeddianwyr cyfoethog. Roeddent yn dibynnu ar dorluniau pren i ddeall ei safbwyntiau oherwydd anwybodaeth, felly roeddent yn annibynadwy ac roeddent yn ei gefnogi am y rhesymau anghywir ond serch hynny, gwnaethant gyfraniad i'r newidiadau crefyddol oherwydd eu bod yn cefnogi Luther.

Gellir dweud yr un peth am y dinasoedd, a ffurfiodd y Gynghrair Schmalkaldic a chefnogi Luther oherwydd eu bod yn wir ddeall ei safbwyntiau gan fod eu lefel o lythrennedd yn uwch. Roeddent yn ddiffuant yn dymuno bod yr eglwys yn canolbwyntio'n fwy ar grefydd nag ar rym a chyfoeth. Felly gallai rhai ddadlau, heb gefnogaeth yr aelodau hyn o gymdeithas ni fyddai newid crefyddol wedi digwydd. Fodd bynnag rwy'n credu, pe na fyddai Luther wedi bod yn gatalydd i'r tywysogion, y gwerinwyr a'r dinasoedd ni fyddai'r newidiadau crefyddol wedi digwydd gan na fyddai pob grŵp wedi gallu cefnogi a gwasgu am yr un peth. Ond rwy'n credu hefyd, pe na fyddai'r tywysogion wedi cefnogi Luther, ni allai'r dinasoedd a'r gwerinwyr fod wedi gwneud felly oherwydd roedd ganddynt bŵer dros eu tiriogaethau ac felly gallent fod wedi atal Lutheriaeth a newid crefyddol pe byddent eisiau. Felly byddai rhai yn dweud hefyd mai oherwydd agwedd wrthglerigol cymdeithas y bu'n bosibl i newid crefyddol ddigwydd rhwng 1500 ac 1564.

Mae'r holl bethau a drafodir uchod yn arwyddocaol ddim ond ar gyfer effaith newid crefyddol yn yr Ymerodraeth Rufeinig Newid. Nawr mae'r ffactorau a gyfrannodd ar draws Ewrop yn mynd i gael eu trafod. Un o'r rhesymau pam ddigwyddodd newid ar draws Ewrop oedd diwylliant y Dadeni a ganiataodd i bobl ar draws Ewrop wrando ar syniadau newydd a deall syniadau newydd fel Lutheriaeth a dyneiddiaeth. Rwy'n credu pe na fyddai hyn wedi digwydd yng nghyfnod y Dadeni byddai llai o bobl wedi gallu gwrando ar syniadau newydd.

Rwy'n credu hefyd bod y wasg argraffu wedi chwarae rhan arwyddocaol iawn oherwydd roedd yn caniatáu i syniadau fel Lutheriaeth ledaenu ar draws Ewrop gan arwain hefyd at fwy o gefnogaeth ar draws Ewrop. Ynghyd â hyn, cyfrannodd y wasg argraffu hefyd at fwy o newid crefyddol yn Ewrop fel yr aildroedigaeth i Babyddiaeth yn Sbaen yn ystod teyrnasiad Philip. Caniataodd y wasg argraffu i'r Ordinhadau Tridentaidd ymledaenu drwy Sbaen i gyd ac i lyfrau gweddi crefyddol newydd gael eu dosbarthu fel ffordd o ail-droi Sbaen. Cyfrannodd y wasg argraffu hefyd at y newid crefyddol yn Ffrainc. Golygai Achos yr Hysbyslenni yn 1534 bod credoau dyneiddiol a chredoau hereticaidd yn cael eu lledaenu drwy Ffrainc gyfan, gan arwain at newid crefyddol yn y ffordd y penderfynodd Ffrainc ddelio â hereticiaid. Felly mae'n amlwg bod y wasg argraffu wedi cyfrannu at y newid

crefyddol ar draws Ewrop o gymharu â ffactorau fel tywysogion yr Almaen a gyfrannodd at newid crefyddol mewn un ardal o Ewrop yn unig.

Yn olaf rwy'n credu bod tywysogion yr Almaen wedi cael effaith arwyddocaol gwirioneddol ar newid crefyddol yn yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd a hefyd bod eu hamddiffyniad a'u cefnogaeth wedi arwain at Heddwch crefyddol Augsburg yn 1555 oherwydd iddynt ganiatáu i bobl eu taleithiau gefnogi Luther a rhoesant gefnogaeth ac amddiffyniad iddo. Roedd y ffaith iddynt lesteirio'r hyn y gallai Siarl V ei wneud i atal y newid crefyddol hwn hefyd yn dangos yr effaith arwyddocaol a gawsant. Fodd bynnag rwy'n credu hefyd, pe na fyddai'r Ymerodraeth wedi dangos agweddau gwrthglerigol yn barod oherwydd llygredd yn yr eglwys fel cyfoeth, seimoniaeth a nepotistiaeth, yna ni fyddai newid crefyddol wedi digwydd. I grynhoi, rwy'n credu bod y wasg argraffu wedi chwarae'r rhan fwy arwyddocaol oherwydd iddi alluogi newid crefyddol ar draws Ewrop yn hytrach na thywysogion yr Almaen a gafodd effaith arwyddocaol ar ardal benodol o Ewrop yn unig.

© Hawlfraint y Goron 2018

## Enghraifft batrymol 2

**'Her fwyaf Sbaen yn y cyfnod 1516-1556 oedd rôl ddeublyg Siarl V fel Brenin Sbaen ac Ymerawdwr yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd.' Trafodwch.**

Roedd deublygrwydd rôl Siarl V fel Brenin Sbaen ac Ymerawdwr yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd yn greiddiol i gwymp y Brenin fel ei her fwyaf. Roedd y ddau deitl yn gofyn am lawer o adnoddau o ran amser ac mewn dimensiwn ariannol hefyd. Fel brenin Sbaen, wynebai lawer o heriau oedd yn ymdrechgar iawn ac roeddent wedi eu cydblethu â'i ddyletswyddau fel Ymerawdwr yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd.

Yn y cyfnod 1516-1556 roedd llawer o newidiadau'n digwydd ac roedd yn rhaid i'r brenin eu cydnabod gyda'i rolau deublyg fel esgyniad y mariscos yn Sbaen a oedd i fod yn Fwslimiaid troëdig. I fynd i'r afael â'r cynnydd hwn, gwasgarodd Siarl y llecynnau hyn lle roedd y mariscos yn byw, a hefyd gwaharddodd eu dillad a'u seremonïau traddodiadol a'u hiaith wreiddiol mewn ymgais i ddifa'r bygythiad hwn i Babyddiaeth er mwyn gwireddu ei rôl fel Ymerawdwr yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd. Roedd ganddo lawer o broblemau wrth geisio cyflawni ei ddyletswyddau ac roedd yn rhaid iddo wneud popeth y gallai i amddiffyn y Gwledydd Cred. Perygl y mariscos oedd y brif her i Sbaen gan ei fod yn bygwth eu delfrydau o undod mewn un wlad.

Ar y llaw arall, ffactor pwysig arall a wynebai Sbaen oedd nad oedd y pendefigion yn hoff iawn o Siarl V fel rheolwr gan nad oedd yn dod o Sbaen ac i gychwyn nid oedd yn siarad Sbaeneg a chododd llawer o'i gyfoedion eu llais a dweud y byddai'n well ganddynt gael ei frawd Fferdinand yn Frenin.

Byddai rhai yn ystyried bod y ddau ffactor hyn wrth wraidd heriau Sbaen ond byddwn innau'n anghytuno ac yn amlygu'r anawsterau ariannol fel gwlad o ganlyniad i ryfeloedd fel y gwrthdaro rhwng yr Hapsbwrgiaid a'r Valois. Roedd eu rhyfel yn erbyn Ffrainc dros Ddugaeth Milan yn llyncu llawer o amser ac arian y Brenin ac roedd yn rhaid iddo ganolbwyntio llawer o'i ymdrechion tuag at y frwydr hon. Er mwyn casglu arian ar gyfer ei arddangosiad mawr o Ysbryd y Dadeni fel hwn bu'n rhaid iddo fenthyca arian o dalaith Castilla yn Sbaen nes iddo wario hyd at eu dimai olaf. Gwnaed Siarl V yn fethdalwr 4 gwaith a chafodd ei feirniadu am y gweithredoedd hyn gan achosi adlach gan lawer yn Sbaen.

Roedd rôl Siarl fel Ymerawdwr yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd yn llyncu cyfran fawr o'i amser gan fod bygythiad Lutheriaeth ar gynnydd gan achosi cynnwrf ymhlith y crefyddau yn y cyfnod, ond ni ddigwyddodd i'r un graddau yn Sbaen ag y gwnaeth yn Ffrainc oherwydd daearyddiaeth Sbaen gyda mynyddoedd y Pyreneau dros y ffin yn atal bygythiad Lutheriaeth. Ond cafodd effaith ar Siarl beth bynnag gan iddo esgeuluso Sbaen yn y diwedd er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau crefyddol.

Un o'r bygythiadau sylfaenol eraill i Sbaen oedd y Twrciaid Otomanaidd oedd yn symud ar

© Hawlfraint y Goron 2018

draws Dwyrain Ewrop ac yn nesáu'n araf at Sbaen a ddaeth yn fwy o fygythiad gydag amser gan iddynt ddod yn fwy grymus ac roeddent yn cynllunio meddiannu Sbaen hefyd.

I gloi, wynebai Siarl V lawer o anawsterau fel Brenin Sbaen ac fel Ymerawdwr yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd gan fod y ddwy rôl yn rhai anodd iawn. Er bod hyn yn rhwystr mawr roedd yn wynebu heriau mawr eraill hefyd fel y gystadleuaeth rhwng yr Hapsbwrgiaid a'r Valois a'r mariscos a allai fod wedi cael effaith niweidiol ar Sbaen.

© Hawlfraint y Goron 2018 